

**Anaf Diwydiannol - pan fod gweithiwr yn absennol o'r gwaith o ganlyniad i ddamwain, anaf neu glefyd yn sgil cyflawni ei swydd.**

**Y broses i'w dilyn:**

**Bydd y gweithiwr yn:**

- ✓ Rhoi gwybod i'r rheolwr am ei salwch o ganlyniad i ddamwain, anaf neu glefyd diwydiannol a gafwyd wrth gyflawni ei ddyletswyddau



**Bydd y rheolwr llinell yn:**

- ✓ Rhoi gwybod am yr absenoldeb salwch ar MyView
- ✓ Cofnodi'r ddamwain/digwyddiad ar-lein cyn gynted ag y bo modd (o fewn 10 diwrnod gwaith)
- ✓ Ymgynghori â'r Ganolfan Llesiant Gweithwyr
- ✓ Atgyfeirio'r gweithiwr at lechyd Galwedigaethol



**Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn:**

- ✓ Cynnal ymchwiliad
- ✓ Penderfynu a yw'n adroddadwy i RIDDOR
- ✓ Llunio adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau a'i anfon ymlaen at y Rheolwr Llinell/Pennaeth y Gwasanaeth



**Bydd y Rheolwr Llinell/Pennaeth y Gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn:**



**Bydd y rheolwr llinell yn cyflawni'r canlynol:**

**Os cadarnheir mai anaf diwydiannol a gafwyd:**

- ✓ Rheoli'r absenoldeb salwch yn unol â'r Polisi Absenoldeb Salwch a'r broses
- ✓ Rhoi gwybod i'r Tîm Absenoldeb ac yn gofyn bod yr absenoldeb yn cael ei gofnodi yn anaf diwydiannol er mwyn sicrhau y defnyddir y cynllun talu cywir a bod y tâl salwch galwedigaethol yn cael ei gyfrifo'n gywir

```
graph TD; A[Cyflog a Hawliau] --> B[Staff nad ydynt yn addysgu yn unol â Chyflogau ac Amodau Gwasanaeth y Cydgyngor Cenedlaethol:]; A --> C[Staff Addysgu yn unol â STPCD:]; B --> D[Noder dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a gyda chyngor gan eich Partner Busnes Adnoddau Dynol:]; C --> D;
```

## Cyflog a Hawliau

### Staff nad ydynt yn addysgu yn unol â Chyflogau ac Amodau Gwasanaeth y Cydgyngor Cenedlaethol:

- ✓ Cofnodir absenoldeb yn sgil anaf diwydiannol ar wahân i absenoldeb sy'n gysylltiedig â salwch arferol at ddibenion talu
- ✓ Caiff absenoldeb yn sgil anaf diwydiannol ei drin ar wahân i absenoldeb arall yn y cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer cyfrifo'r tâl salwch.
- ✓ Mae hawl gan weithwyr i dderbyn tâl salwch yn unol â hyd eu cyfnod o wasanaeth.

#### Enghraifft:

Mae gan weithiwr hawl i dâl salwch llawn oherwydd hyd y gwasanaeth ac mae'n absennol oherwydd anafiadau diwydiannol, bydd yn derbyn:

- 6 mis ar gyflog llawn (anaf diwydiannol)
- 6 mis ar hanner cyflog (anaf diwydiannol)

Heb ystyried cyfnodau eraill o salwch yn y cyfnod treigl 12 mis blaenorol

### Staff Addysgu yn unol â STPCD:

- ✓ 100 diwrnod o dâl llawn (beth bynnag yw hyd y cyfnod o wasanaeth)
- ✓ Ar ôl y 100 diwrnod hyn, os ydynt yn dal yn absennol o'r gwaith oherwydd yr anaf, byddant yn newid yn ôl yn awtomatig i dâl salwch arferol ac yn cael taliad yn unol â hyd eu gwasanaeth

#### Enghraifft:

Mae gan athro/athrawes hawliau salwch llawn oherwydd hyd y gwasanaeth ac mae'n absennol oherwydd anaf diwydiannol, bydd yn cael:

- Tâl salwch llawn (anaf diwydiannol) am 100 diwrnod
- Tâl Salwch llawn (arferol) am 100 diwrnod\*
- Hanner tâl salwch (arferol) am 100 diwrnod\*

\* Bydd absenoldeb oherwydd salwch yn y cyfnod treigl 12 mis blaenorol yn cael ei ddidynnu ac eithrio absenoldeb o ganlyniad i anaf diwydiannol

***Noder dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a gyda chyngor gan eich Partner Busnes Adnoddau Dynol:***

*Ar gyfer staff addysgu a staff eraill, gall yr ysgol/awdurdod corfforaethol ystyried ymestyn y cyfnod tâl llawn.*



### **Hawl Statudol y Gweithiwr i Wyliau**

#### **O ran staff ysgol nad ydynt yn addysgu:**

- Mae unrhyw absenoldeb salwch dros 4 wythnos yn cronni i'r gyfradd statudol yn unig yn unol â Pholisi Gwyliau Blynyddol a Thâl Gwyliau CSC.



### **Cyfnodau dilynol o absenoldeb salwch**

Bydd y rheolwr llinell yn:

- ✓ Gofyn i lechyd Galwedigaethol am gadarnhad meddygol bod yr absenoldeb yn ymwneud â'r anaf diwydiannol gwreiddiol, er mwyn i'r absenoldeb barhau i gael ei ystyried a'i gofnodi yn anaf diwydiannol.
- ✓ Rhoi gwybod i'r Tîm Absenoldeb yn dilyn yr argymhelliad gan lechyd Galwedigaethol, er mwyn sicrhau y defnyddir y cynllun talu cywir a bod hawliau tâl salwch galwedigaethol yn cael eu cyfrifo'n gywir

#### **Er enghraifft:**

Mae gweithiwr yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o absenoldeb oherwydd anaf diwydiannol ac mae ei enw wedi'i roi ar restr aros ar gyfer llawdriniaeth o ganlyniad i'r anaf. Mae'r gweithiwr wedi cael dyddiad ar gyfer llawdriniaeth ac mae'n debygol o fod yn absennol o'r gwaith am gyfnod o 6 wythnos.

- ✓ Mae angen cael barn feddygol i gadarnhau bod y llawdriniaeth yn gysylltiedig â'r driniaeth barhaus o ganlyniad i'r anaf gwreiddiol a gafwyd.